

Pobl Busnes Lleol yn Cario'r Fflam dros Elusen



Cynhaliwyd rhan Gwynedd o Ras Gyfnewid y Fflam Olympaidd ar 28ain Mai gan ganu clodydd arwyr anamlwg o'r ardal. I nodi'r achlysur, trefnodd **Cyngor Gwynedd** unig ddiwyddiad swyddogol Pwyllgor Trefnu Llundain (LOCOG) yng Ngogledd Cymru.

Yn dilyn derbyniad lle trefnwyd yr arlwyfaeth gan y sefydliad partner Coleg Menai, cynhaliwyd y digwyddiad Dathlu ac yna cyrhaeddodd y Fflam yn syth oddi ar ei thaith o amgylch Gwynedd. Roedd y rhai oedd yn ei chario ar y daith yn drawstoriad ysbrydoledig o'r gymuned, ac yn eu plith roedd sawl wyneb cyfarwydd o'r sector busnes.

Er enghraifft, cymerwch Albi Jones, a gynorthwyodd i gario'r fflam drwy Bwllheli. Rai blynyddoedd yn ôl cafodd Albi, perchennog caffi **Penwaig** yn Nefyn, wybod fod ganddo anhwylder ar ei galon a chynghorwyd ef i roi'r gorau i gymryd rhan mewn chwaraeon. Fodd bynnag, ar ôl llawdriniaeth lwyddiannus, aeth ati i ddatlu yn 2011 drwy drefnu taith feic 256 milltir o Ynys Môn i Gaerdydd i godi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon. Cynghorwyd Albi gan ei feddyg y gallai her o'r fath fod y tu hwnt i lefelau ymarfer sy'n cael eu hargymell i w'r yn ei gyflwr ef; ond, gymaint oedd y gefnogaeth a gafodd gan y bobl leol fel y peidiodd y meddyg wrthwynebu a phenderfynu ymuno ag ef ar y daith.

Yna, draw yng Nghaernarfon, trosglwyddwyd y fflam i Anna Williams sy'n gweithio i **Bartneriaeth Garddio Bywyd Gwyllt Eryri**. Ganed Anna yn Sweden, a symudodd i Gymru ym 1987, lle cafodd ei hyfforddi ym maes Coedwigaeth a lle cyfarfu â'i gŵr, David. Ers 2004 mae Anna wedi bod yn arweinydd gwirfoddol clwb bywyd gwyllt gwobrwyedig i blant lleol. Hi sy'n trefnu'r gystadleuaeth Garddio Bywyd Gwyllt flynyddol sy'n annog ysgolion, busnesau, cymunedau ac unigolion i neilltuo lle i fywyd gwyllt yn eu gerddi. Llwyddodd Anna i sicrhau cyllid i gyflogi tri aelod o staff gan hyrwyddo dulliau cyfeillgar o arddio sy'n rhoi ystyriaeth i fywyd gwyllt yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn helpu mwy na 150 o ysgolion i greu gerddi gyda chymorth rhieni, staff a disgyblion.



O Goleg Menai i Kyoto

Cipiodd grŵp o fyfyrwyr o **Goleg Menai** y wobwr gyntaf mewn cystadleuaeth genedlaethol i entrepreneuriaid ifanc - a nawr maent ar eu ffordd i Kyoto yn Japan i herio gweddill y byd. Daeth y myfyrwyr Celf a Dylunio i'r brig yng nghystadleuaeth genedlaethol derfynol Her Entrepreneuriaeth Fyd-eang 2012, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd. Eleni roedd y thema yn un Olympaidd a gofynnwyd i grwpiau ddatblygu cynnyrch neu wasanaeth a fyddai'n sicrhau fod ysbryd 2012 yn gadael etifeddiaeth barhaol yng Nghymru.



Rhodddwyd 24 awr yn unig i'r cystadleuwyr ddatblygu syniad busnes, cynllun busnes a chynnig llif arian, ac roedd yn rhaid iddynt fod yn barod i gynnig dadleuon dros eu cynnig gerbron panel o arbenigwyr y diwrnod canlynol. Penderfynodd y grŵp o Goleg Menai alw eu busnes yn "Localympics", gan lunio cynllun busnes i hyrwyddo digwyddiadau mini-Olympaidd mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru, a chyflwyno pobl ifanc i ystod eang o chwaraeon, o dennis bwrdd i ddringo.

Roedd y wobwr gyntaf yn cynnwys tlws, ac arian tuag at deithio i'r gystadleuaeth derfynol fyd-eang, i'w chynnal yn Kyoto. Diolchodd Edwina Hart, y Gweinidog Busnes, i'r holl entrepreneuriaid o Gymru oedd wedi cefnogi'r timau oedd yn cystadlu drwy eu mentora a'u hannog, ac meddai: "Rwyf yn hynod o falch y bydd Coleg Menai nawr yn cynrychioli Cymru yn y Gystadleuaeth Fyd-eang Derfynol ac rwyf yn dymuno pob llwyddiant i'r tîm."

www.menai.ac.uk

Llwyddiant Ysgubol i Wŷr Busnes o Wynedd mewn Seremoni Wobrwyo



Mewn achlysur rhagorol ar ddydd Iau 17eg Mai, anrhydeddwyd gŵr busnes lleol o'r radd flaenaf gan ei gymheiriaid fel Gŵr Busnes y Flwyddyn yng Ngwynedd. Rheolwr Gyfarwyddwr **Afonwen Laundry** yw Mark Woolfenden. Mae'r cwmni yn un tra llwyddiannus, ac fe'i enwyd fel y cwmni a dyfodd gyflymaf yng Nghymru yng ngwobrau Twf Cyflym 50 yn 2011. Mae'r acolâd diweddaraf hwn yn brawf pellach o ymroddiad a gwaith caled Mark wrth arwain y cwmni teuluol hwn sydd â'i wreiddiau ym Mhwlheli.

Roedd y seremoni wobrwyo yn rhan o'r Cinio Gala blynyddol sy'n ddigwyddiad o bwys yng nghalendr Gwynedd ac yn uchafbwynt Wythnos Busnes Gwynedd 2012. Noddir y Cinio gan Brifysgol Bangor a chynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Rheolaeth Ysgol Fusnes y Brifysgol. Mae'r wobwr, a noddir gan **Rwydwaith Busnes Gwynedd**, yn cydnabod cyfraniad pwysig unigolyn i sector busnes yr ardal. Cyflwynwyd y wobwr gan Gill Richards, gwraig fusnes leol hynod lwyddiannus sy'n Aelod o Fwrdd y Rhwydwaith. Adroddodd Gill stori datblygiad Afonwen a'i hanes o lwyddiant trawiadol dan arweinyddiaeth ysbrydoledig Mark. Wrth dderbyn y wobwr, meddai Mark: "Rwyf yn falch dros ben o dderbyn y wobwr hon, nid yn unig gan ein bod yn fusnes o Wynedd sydd wedi ei wreiddio'n ddwfn yn y gymuned fusnes leol. Mae hi'n deyrnged ragorol i sylfaenwyr y busnes ein bod, erbyn hyn, yn cyflenwi mwy na 45,000 o ystafelloedd gwestai ym mhob rhan o Gymru, ac o Newcastle upon Tyne i lawr i Exeter ac ar draws pob rhan o Lundain."

Mae Afonwen yn un o'r cwmnïau golchi a llogi lleiniau preifat mwyaf yn y DU, ac mae gan y cwmni gyfleusterau cynhyrchu o'r radd flaenaf ac mae'n rhoi pwyslais ar wasanaeth cwsmeriaid. Mae busnes y cwmni wedi dyblu ym mhob rhan o'r sector croeso dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gyflenwi mwy na 1.6 miliwn eitem o lleiniau i westai sy'n amrywio o westai corfforaethol 4 seren i rai yn y sector gwestai rhad. Yn 2012 cyflogwyd tua 440 o staff ar bedwar safle yng Ngogledd Cymru, Caerdydd, Leeds a Llundain.

Yn gynharach eleni cyrhaeddodd Afonwen y 65ain safle ar restr Investec Hot 100 o fusnesau oedd yn tyfu gyflymaf yn y DU, gyda 34% o drosiant cyfansawdd, sef £16.4 miliwn. Enwyd Mark yn Berson Busnes y Flwyddyn yng Ngwobrau Cyflawniad Cymru'r Daily Post 2011, ac ar yr un diwrnod â'r Cinio Gala roedd yn un o'r bobl busnes a anrhydeddwyd yng Ngwobrau "Cyfarwyddwr y Flwyddyn" Sefydliad Cyfarwyddwyr Cymru 2012 yng Nghaerdydd.



Y siaradwr gwadd yn y Cinio oedd Peter Griffiths, Prif Weithredwr Principality Wales sy'n gadael y swydd, a chafodd ei gyflwyno gan Phil Ryan, Rheolwr Gyfarwyddwr y Ganolfan Rheolaeth. Y Cyngorydd Dyfed Edwards, ac yntau newydd gael ei ailethol yn Arweinydd Cyngor Gwynedd, fu'n annerch y gynulleidfa fawreddog ac yn cloi rhan ffurfiol y noson, ac meddai: "A hithau bellach yn ei seithfed flwyddyn, mae'r Wythnos Fusnes yn gyfle rhagorol i hyrwyddo a dathlu'r amrywiaeth eang o fentrau llwyddiannus sy'n gweithredu yn y sir."

Yn wahanol i unrhyw gonsortia eraill tebyg, mae aelodaeth o Rwydwaith Busnes Gwynedd yn rhad ac am ddim a gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno wneud hynny mewn dau funud drwy fynd i: www.gwyneddbusnes.net

www.afonwenlaundry.com

Cwmni Adeiladu yn Cyhoeddi Canlyniadau Masnachu Iach

Mae Grŵp **Watkin Jones** wedi cyhoeddi ffigur gwerthiant o £69.9 miliwn am y chwe mis hyd at 31ain Mawrth 2012, a gynhyrchodd elw cyn-treth o £8.15 miliwn. Meddai'r Rheolwr Gyfarwyddwr Mark Watkin Jones: "Unwaith eto mae'r holl adrannau wedi perfformio'n dda ac mae ganddynt lyfrau archebion sylweddol ar gyfer y dyfodol agos. Gyda phrosiectau newydd ar fin cychwyn rydym wrthi yn recriwtio staff newydd ym mhob maes drwy'r busnes."

Sefydlwyd cwmni Watkin Jones o Fangor ym 1791 gan Huw Jones, y saer coed o Benmachno a pharhaodd y cwmni yn fusnes teuluol wrth dyfu'n gyson dros gyfnod o ddwy ganrif i ddod yn un o'r enwau mwyaf llwyddiannus a mawr ei barch yn y diwydiannau datblygu eiddo ac adeiladu. www.watkinjones.com

Plac y Titanic yn Anrhydeddu Arwr o Wynedd

Mae **Inigo Jones** yn falch o gyflenwi plac llechen Gymreig newydd i'r arwr lleol Harold Lowe, a achubodd nifer o fywydau ar noson trychineb y Titanic. Treuliodd Harold ei blentynod cynnar yn y Bermo, ac yno y dadorchuddiwyd y plac 100 mlynedd union ar ôl y trychineb i goffáu ei ymdrechion gwrol.

Meddai Roger Davis, un o gyfarwyddwyr Inigo Jones: "Roedd yn bleser o'r mwyaf ac yn anrhydedd cael ein comisiynu i gyflenwi'r plac pwysig hwn sy'n cofnodi gwrhydri Harold Lowe." Mae'r plac llechen Gymreig wedi ei ysgythru yn ddwyieithog ac yn cynnwys llun lliw o'r Titanic wedi ei beintio â llaw.

Mae stori gweithredoedd dewr Harold ar y "Night to Remember" yn sicr yn werth ei hadrodd. Ac yntau'n Bumed Swyddog y Titanic, Harold oedd yn gyfrifol am Fad Achub rhif 14. Pan suddodd y llong tua 2.20 o'r gloch y bore, roedd Harold wedi rhwyfo oddi wrthi gyda'r teithwyr a achubodd. Roedd eisiau mynd yn ôl i chwilio am fwy, ond ofnai gael ei lethu gan y nifer mawr o bobl oedd mewn



anobaith yn y môr. Ail-ddosbarthodd ei deithwyr ymysg y grŵp o fadau achub eraill yr oedd wedi eu casglu at ei gilydd, a threfnodd bod un cwch yn chwilio am unrhyw rai oedd yn dal yn fyw - yr unig gwch i ddychwelyd i safle'r trychineb ar y pryd. Llwyddodd i achub pedwar o ddynion yn unig, a bu farw un o'r rhain yn ddiweddarach y noson honno. Yna trefnodd y Pumed Swyddog dewr fod ei griw yn codi'r mast ac yn hwylio, a llwyddodd i achub y teithwyr o fad achub arall oedd yn suddo, sef y 'Collapsible A', cyn cludo pob un i ddiogelwch llong achub Carpathia.

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf gwasanaethodd Harold yn y Llynges Frenhinol Wrth Gefn, gan gyrraedd rheng Comander cyn ymddeol i fyw yn Neganwy gyda'i deulu. Bu farw ar 12 Mai 1944 yn 61 oed ac fe'i claddwyd yn eglwys Llandrillo-yn-Rhos, Gogledd Cymru.

www.inigojones.co.uk

Canolfan Technoleg Bwyd yn Rhagori

Yn ystod 2011, hyfforddodd tîm y **Ganolfan Technoleg Bwyd (FTC)** 390 o weithwyr o fusnesau bwyd yr ardal. Llwyddodd y dysgwyr i gael canlyniadau rhagorol gyda 100% ohonynt yn cwblhau eu rhaglenni a 96% yn llwyddo i ennill eu dewis gymhwyster.

Meddai Martin Jardine, Rheolwr y Ganolfan: "Rydym yn hapus tu hwnt gyda'r canlyniadau yma. Maen nhw'n dangos gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r FTC yn rhagori ar y cymaryddion cenedlaethol o gwblhau rhaglenni yn llwyddiannus. Mae hyn yn adlewyrchiad o safon uchel yr addysgu a'r dysgu sy'n digwydd." Ychwanegodd Martin: "Pe byddai eich busnes yn elwa o lefel uwch o wybodaeth ac arbenigedd technegol, mae gan FTC amrediad eang o raglenni hyfforddi penodol ym maes busnes bwyd. Mae'r cyrsiau hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol megis Diogelwch Bwyd a systemau HACCP."

Er mwyn darganfod mwy am y mentrau hyn a rhaglen gyflawn y cyrsiau hyfforddi byr sydd ar gael, ffoniwch: 08445 460 460 neu ewch i www.linc.menai.ac.uk



Dathlu Talent Ifanc

Cynhaliwyd **Eisteddfod yr Urdd 2012** ar safle Coleg Meirion Dwyfor, ar stad Glynllifon ger Caernarfon, rhwng 4ydd a 9fed o Fehefin. Unwaith eto, bu'r digwyddiad, sy'n wyl ieuencid fwyaf Ewrop, yn hynod o boblogaidd ymysg pobl yr ardal ac ymwelwyr o bob cwr o'r wlad a thu hwnt. Ymwelodd oddeutu 100,000 o bobl â'r safle yn ystod yr wythnos, ac enillwyd y Gadair gan Gruffudd Antur o Lanuwchllyn am ei awdl oedd yn trafod bywyd gwleidyddol a chymdeithasol Cymru.

Cyflwynwyd y Gadair, a wnaed gan Llew Jones, gan deulu Fron Olau, Rhoslan, ger Cricieth, i ddathlu bywydau'r tad a'r mab, Meirion a Ceredig Parry. Defnyddiodd Llew, o Rosfawr, ger Pwllheli, bren derw i greu'r Gadair. Gosododd lechen o Ddyffryn Nantlle mewn panel yng nghefn ucha'r Gadair. O dan y llechen ceir cerfiad o lwybr a choed sy'n adlewyrchu ysblander y Lôn Goed, sydd daflriad carreg o gartref y teulu yn Fron Olau.



Gruffudd Antur yn enill Cadair Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Yn ôl Brut y Tywysogion, un o ffynonellau cyntaf a phwysicaf hanes Cymru, y tro cyntaf i Gadeiriau gael eu rhoi yn wobrau i enillwyr oedd mewn cystadlaethau barddonol a cherddorol yng Nghastell Aberteifi gan Rhys ap Gruffydd o Ddinefwr ym 1176. Heddiw, Eisteddfod yr Urdd yw prifwyl y celfyddydau i bobl ifanc yng Nghymru. Mae Cymry ifanc talentog rhwng 7 a 24 oed yn cymryd rhan mewn

wythnos o gystadlu: canu, adrodd, dawnsio, actio a sgiliau cerddorol, a chynhelir rhagbrofion rhanbarthol ymlaen llaw. Fel yr Eisteddfod Genedlaethol, cynhelir Eisteddfod yr Urdd ar safle gwahanol bob blwyddyn.

www.urdd.org/eisteddfod

Canolfan Fusnes Newydd ym Mhenrhyn Llŷn

Mae cynllun adfywio "Tai, Gwaith, Iaith" wedi cyrraedd cyfnod newydd ar ôl cwblhau canolfan fenter gwerth £1.8m ym Mhenrhyn Llŷn. Mae **Canolfan Fenter Congl Meinciau** yn ymuno â Cham 1 y prosiect, 12 o dai fforddiadwy ym mhentref Botwnnog, ac yn cynnwys 12 uned busnes, caffïa a chyfleusterau eraill i fusnesau bychain.



Adeiladwyd y Ganolfan gan gwmni adeiladu lleol, Derwen Llŷn, a'r briff oedd manteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd lleol drwy gydol y broses adeiladu. Mae'r Ganolfan yn gwneud defnydd helaeth o dechnolegau ynni adnewyddadwy.

Nod cyffredinol y prosiect yw bod y Ganolfan yn ffurfio canolbwynt mentergarwch yn y gymuned yn seiliedig ar gyfrwng yr iaith Gymraeg. Yn ogystal â 12 uned i'w gosod, ceir swit gyfrifiadurol ac ystafell hyfforddi, yn ogystal â chyfleuster desg boeth. Darperir gwasanaeth cynghori busnes er budd defnyddwyr y Ganolfan, ac mae band eang a WiFi ar gael drwy'r adeilad. Ceir caffï o safon ar y safle hefyd - Caffï Grug.

Ym mis Mai, fel rhan o gynllun peilot, agorwyd siop cynhyrchion lleol gyda chymorth y prosiect Cymunedau Cynladwy a ariannwyd drwy'r Gronfa Datblygu Gwledig. Datblygwyd y prosiect gan Gymdeithas Tai Eryri ar y cyd â Chymunedau yn Gyntaf Pen Llŷn, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.

www.conglmeinciau.org.uk

Swyddi Gogledd Cymru yn Cael Hwb gan Drwydded Asiantaeth

Mae asiantaeth recriwtio hynaf Gogledd Orllewin Cymru newydd gael trwydded arbennig i ddarparu gweithwyr lleol i gyflenwi cynnyrch ffres. Bellach bydd **Supertemps**, sydd â swyddfa ym Mharc Menai ym Mangor, yn gallu cyflenwi gweithwyr ym maes amaethyddiaeth, garddwriaeth, coedwigaeth, prosesu pysgod, casglu pysgod cregyn a ffermio llaeth, yn ogystal â gwaith pecynnu neu brosesu cyffredinol. Yn ôl Sarah Ellwood, y Rheolwr Gyfarwyddwr, cyn hyn roedd yn rhaid trefnu bysiau i gludo gweithwyr o'r tu allan i'r ardal. "Mae hyn yn newyddion rhagorol i fusnesau Gogledd Cymru a hefyd i'r rhai sy'n chwilio am swyddi," meddai. "Mae'r sectorau hyn yn cynrychioli rhan sylweddol o economi Gogledd Cymru ond hyd yma cawsant eu gorfodi i ddefnyddio asiantaethau y tu allan i'r ardal i gael gweithwyr." www.supertemps.co.uk

Gŵyl Rhif 6 yn Bwriadu bod yn Llwyddiant Ysgubol ym Mhortmeirion

Yr ŵyl newydd ddiweddaraf i ymuno â chyfres wyliau'r DU yw **Gŵyl Rhif 6 Portmeirion**, a gynhelir ym mis Medi ac sy'n ymfalchïo mewn amrywiaeth anhygoel o'r dalent ryngwladol orau. Bydd sêr yr ŵyl yn cynnwys New Order, Primal Scream a Spiritualized, ynghyd â'r Cymro Gruff Rhys. Yn ogystal â cherddoriaeth, cynhelir digon o weithgareddau hwyliog mewn amrywiaeth o safleoedd o amgylch y Pentref a'r cyffiniau: dangos ffilmiau, theatr stryd, darlleniadau rhyddiaith a barddoniaeth, dawns fasgiau am hanner nos, comedïau pen-clogwyn, partïon cudd, munudau rhyngweithiol byrfyfyr a hyd yn oed darlithoedd a thrafodaethau diwylliannol.

Cynhelir Gŵyl Rhif 6 yn ystod penwythnos 14eg i 16fed Medi. Mae'r enw wrth gwrs yn gyfeiriad at y gyfres deledu enwog o'r 60au "The Prisoner", a ffilmwyd ym Mhortmeirion, a bydd y dewis unigryw o lety i'r rhai sy'n mynychu'r ŵyl yn amrywio o ystafelloedd yng nghastell hanesyddol Deudraeth, i letyau yn y pentref hyd at yurtiau, tipis a phebyll cloch moethus.

Meddai Robin Llewelyn, Rheolwr Gyfarwyddwr Portmeirion: "Rydym yn falch o groesawu'r ychwanegiad arloesol hwn i'r sin wyliau yn y DU. Gobeithio fod hwn yn ddechrau traddodiad newydd yn y Pentref ac mai dyma'r cyntaf o nifer o wyliau o'r fath."

Portmeirion oedd yr atyniad twristaidd mwyaf poblogaidd gyda thâl mynediad yng Ngogledd Cymru y llynedd. Daeth 234,000 o ymwelwyr i'r pentref Eidalaid ger Porthmadog yn 2011, y pedwerydd safle mwyaf poblogaidd yng Nghymru.

www.festivalnumber6.com / www.portmeirion-village.com



Newyddion Da i Rai Sy'n Ymddiddori mewn Bwyd yng Ngwynedd wrth i Gwmni Lleol Ehangu

Bydd yn gyfnod cyffrous i'r cyfanwerthwyr bwyd lleol **Harlech Foodservice**, wrth iddynt ehangu eu hamrywiaeth o gynhyrchion a chyhoeddi eu bod wedi prynu Bwydlyn, y cyfanwerthwyr cig a'r arlwywyr gwobrwyedig o Ogledd Cymru.

Yn ystod 15 mlynedd o fasnachu llwyddodd Bwydlyn i greu cnewyllyn o gwsmeriaid ffyddlon o ganlyniad i safon uchel ei gigoedd Cymreig. Meddai Andrew Foskett, Rheolwr Gyfarwyddwr Harlech Foodservice: "Rydym hefyd yn bwriadu buddsoddi'n sylweddol mewn ffatri brosesu o'r radd flaenaf a fydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i gynhyrchu cynnyrch pwrpasol."

Bydd Harlech Foodservice hefyd yn cynnig ei frand ei hun o ddiodydd. Bydd coffi "Celtic Roast" yn cael ei ychwanegu at y bagiau te newydd "Celtic Blend". Mae'r coffi yn cael ei wneud yn gyfan gwbl â ffa coffi Arabica Ardystiedig Cynghrair y Fforestydd Glaw sy'n rhoi blas dymunol ond cyfoethog gydag arogl atyniadol. www.bwydlyn.co.uk

Ieuan Wyn Jones yn Cymeradwyo 'Prentis Menai



Cyfarfu Ieuan Wyn Jones AC â thîm **Prentis Menai**, yr asiantaeth cyflogi prentisiaid, i ddysgu mwy am ei llwyddiant yn gweithio gyda busnesau lleol. Sefydlwyd yr asiantaeth gan Linc Menai, cangen cysylltu â gweithwyr Coleg Menai, i wella sgiliau gweithwyr lleol ac mae wedi ei lleoli yng Nghanolfan Ynni

newydd sbon gwerth £6 miliwn y coleg. Yn ystod ei ymweliad canmolodd Ieuan Wyn Jones gyflogwyr lleol am greu prentisiaethau: "Rwyf yn cymeradwyo eu hawydd a'u hymroddiad, nid yn unig wrth gymryd y cam dewr o sefydlu eu busnes eu hunain, ond hefyd wrth fuddsoddi mewn pobl ifanc leol."

Meddai Glenn Williams, Swyddog Datblygu Peirianeg ac Ynni: "Mae Roberts o Bort Dinorwig, Rheilffordd yr Wyddfa ac Ysbyty Gwynedd i gyd yn rhan o'r grŵp cyntaf o gwmnïau yng Ngwynedd i elwa o'n hasiantaeth, sy'n rhoi arian ychwanegol i ganiatáu i gwmnïau dderbyn prentisiaid."

www.linc.menai.ac.uk



Marchnad Fwyd Newydd i Gynhyrchwyr Gwynedd

Gyda chymorth grant gan Annog, mae cynhyrchwyr bwyd lleol Gwynedd newydd gychwyn marchnad newydd ar y Maes yng Nghaernarfon. Amserwyd y lansiad ym mis Mehefin i gyd-fynd ag Eisteddfod yr Urdd a dathliadau'r Jiwbil a bu'n hynod o lwyddiannus yn ôl preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.



Ela Roberts, Oinc Oink

Mae **Marchnad Eryri** a ysbrydolwyd gan lwyddiant marchnad cynnyrch lleol Porthmadog, yn cynnwys 12 o gynhyrchwyr bwyd a diod sy'n ymfalchio eu bod yn defnyddio cynhwysion lleol o safon uchel. Beth am lunio bwydlen enghreifftiol o'r hyn sydd ar gael!

Mae'r prif gwrs yn stori o lwyddiant yng Ngogledd Cymru, lle cipiodd Huw ac Ela Roberts, **Oinc Oink**, brif bencampwriaeth moch Gŵyl Wanwyn y Sioe Frenhinol ym mis Mai. Mae Oinc Oink yn gynhyrchwyr porc pedigri Cymreig, ac mae'r holl borc maes wedi eu magu a'u pesgi ar y safle.

Byddwn yn cynnig llwncdestun â gwydraid o **Aerona**, y gwirodlyn cyntaf o aeron aronia i gael ei gynhyrchu a'i werthu yn y DU.

Gwneir y gwirodlyn unigryw hwn ag aeron a gasglwyd â llaw oddi ar blanhigion sy'n cael eu tyfu ar fferm deuluol Hazel a Gwilym Jones, ger Pwllheli. Ar ei ben ei hun, mae Aerona yn ddiod berffaith i gynhesu'r galon ac yn wiroadlyn delfrydol ar ôl pryd o fwyd, neu gellir ei gyfuno â chymysgydd os yw'n well gennych ddiod sy'n para mwy. Mae hefyd yn rhagorol i wneud coctels.

I'r rhai ohonoch sy'n hoffi pethau melys, ceir cyffug a thaffi cartref **Eboni ac Eifori**, enillwyr dwy seren aur y Great Taste Awards 2011. Os yw'n well gennych gaws, mae **Cynnyrch Llaeth Gafr Richlin** yn cynhyrchu amryw o wahanol gawsiau meddal a lled-feddal wedi eu pasteureiddio gan ddefnyddio llaeth eu gyr o 24 gafr odro ar eu fferm ger Pwllheli.

Roedd y grant i sefydlu'r farchnad fwyd yn rhan o'r prosiect Llwyddo yng Ngwynedd sy'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau cyllido a fwriadwyd i annog datblygiad busnesau gwledig yn y sir. Sefydliad wedi ei leoli yn Sir Fôn yw Annog sy'n gweithredu'r fenter Cynhyrchion Lleol, a fwriadwyd i helpu Cynhyrchwyr Gwynedd i wella eu proffil a chynyddu ymwybyddiaeth a gwerthiant eu cynhyrchion.

www.cynnyrchgwynedd.co.uk



Hazel Jones, Aerona

LEAD Wales – Sgiliau ac Offer i Dyfu eich Busnes



Mae **LEAD Wales** yn rhaglen hyfforddi a datblygu rad ac am ddim sy'n rhoi cyfle i berchnogion-reolwyr busnesau bach a chanolig wella eu sgiliau arwain a symud eu busnesau ymlaen i'r lefel nesaf. Mae'n caniatáu i entrepreneuriaid gynyddu trosiant a phroffidioldeb, ehangu eu gornellion a rhyddhau gwir botensial eu staff.

Mae'r rhaglen £8 miliwn yn cael ei gweithredu drwy Brifysgol Abertawe ac **Ysgol Fusnes Prifysgol Bangor**, ac yn cael ei chefnogi gan Gynulliad Cymru. Hyd yma mae 103 o berchnogion busnesau lleol un ai wedi graddio neu yn dilyn y rhaglen ar hyn o bryd ym Mhrifysgol Bangor.

Ni chodir tâl am y rhaglen sy'n werth mwy na £11,500 ond bydd angen ichi ymrwymo i dreulio deuddydd y mis dros gyfnod o 10 mis i sicrhau eich bod yn graddio.

Er mwyn gallu manteisio, rhaid ichi fod yn Berchennog-Reolwr busnes gyda lleiafswm o bedwar aelod o staff, yn ardal gydgyfeirio Cymru.

Ffoniwch Jackie Whittaker ar: 01248 382569 neu e-bostiwch j.whittaker@bangor.ac.uk



© 2012 Rhwydwaith Busnes Gwynedd
Ysgrifennwyd a golygwyd gan : Jacquie Knowles
Dylunwyd gan: mwncibach.com
Sylwer na ellir dal y cyhoeddwy yn gyfrifol
am unrhyw wallau neu hepgorau yn y testun.